Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Meithrin Llangelynnin**
**Canolfan Gymunedol Henryd**
**Ysgol Llangelynnin**
**Henryd**
**LL32 8YB**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Sheila Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Cylch Meithrin Llangelynnin wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mawrth 2016.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r lleoliad o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sicrhau cyfleoedd pwrpasol a chyson i blant ddatblygu medrau cynnar llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y chwe maes dysgu yn systematig

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad yn darparu llawer o gyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y chwe maes dysgu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn helpu plant i ddysgu adnabod *pizzas* o wahanol siapiau a chyfrif darnau arian i dalu am nwyddau yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau darllen cynnar trwy eu hannog i adnabod eu henwau yn ystod cofrestru a gwrando ar stori ar ddiwedd pob sesiwn. Caiff plant gyfleoedd defnyddiol i ddatblygu eu medrau creu marciau yn yr ardal beintio ac yn ystod gweithgareddau ar ben bwrdd. Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant gwerth chweil sydd wedi eu helpu i ddeall sut i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant yn briodol. O ganlyniad, maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ymarfer eu medrau TGCh yn ystod chwarae, gan ddewis stori ar gyfrifiadur llechen. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd cynyddol dda o'r fformat cynllunio a ddarperir gan yr awdurdod lleol i gynllunio'n ofalus a phwrpasol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn systematig dros gyfnod.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei ardal awyr agored yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i helpu plant i ddatblygu eu medrau wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored, gan gynnwys ymarfer patrymau iaith penodol a datblygu eu medrau corfforol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'n ddyddiau cymharol gynnar o ran cynllunio i blant ddysgu ac ymarfer eu medrau'n bwrpasol yn yr awyr agored.

### Argymhelliad 2: Gwella datblygiad medrau Cymraeg y plant

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd siarad Cymraeg â'r plant i gefnogi eu medrau cyfathrebu datblygol ac maent yn defnyddio'r iaith yn gyson trwy gydol y sesiwn wrth siarad â'r plant. Mae ymarferwyr wedi elwa ar gymryd rhan yng nghynllun datblygu'r Gymraeg Mudiad Meithrin yn ddiweddar. Mae hyn wedi cynyddu eu hyder ac mae'n gwella eu dealltwriaeth o batrymau iaith cywir. Mae ymarferwyr yn datblygu geirfa plant yn dda trwy ddefnyddio geiriau Cymraeg yn rheolaidd wrth iddynt chwarae ochr yn ochr â nhw ac yn ystod amser byrbryd. Gwnânt ddefnydd gwerth chweil o ganeuon o'r cynllun i helpu plant i ddysgu a chofio patrymau iaith a ddefnyddir yn

rheolaidd. Fodd bynnag, yn achlysurol iawn, nid yw ymarferwyr yn defnyddio’r Gymraeg i siarad â’i gilydd, ac mae hyn yn tueddu i dynnu oddi ar ethos Cymraeg y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cynllunio’n rheolaidd i gefnogi datblygiad Cymraeg plant. Maent yn cynnwys ymadroddion penodol y maent am i’r plant eu dysgu ac yn dewis caneuon a fydd yn eu helpu i ddysgu’r rhain. Mae’r cynllunio yn dod yn fwy systematig wrth i ymarferwyr ymgyfarwyddo â chynllun iaith Gymraeg Mudiad Meithrin.

**Argymhelliad 3: Gwella cynllunio drwy gynnwys yr holl ymarferwyr yn y broses a sicrhau bod y tasgau yn heriol ac yn gweddu i allu’r plant**

Cynnydd cryf o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r lleoliad yn darparu ar gyfer ystod oedran eang ac mae ymarferwyr yn deall bod angen gweddu tasgau i gyfnod datblygu plant. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd rheolaidd ac effeithiol o system a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod pryd mae gan blant ddealltwriaeth gadarn o gysyniad a phryd mae angen mwy o amser ac ymarfer arnynt. Defnyddiant y wybodaeth hon yn gynyddol dda i gynllunio beth i’w wneud nesaf. Mae’r cynllunio ar gyfer tasgau â ffocws yn nodi heriau gwerth chweil yn rheolaidd ar gyfer plant sy’n fwy abl. Yn ddiweddar iawn, mae’r lleoliad wedi mireinio ei system gynllunio ymhellach i nodi camau priodol ar gyfer pob grŵp oedran.

Mae’r arweinydd wedi gweithio’n galed i archwilio gwahanol ffyrdd o gynnwys yr holl ymarferwyr yn briodol yn y broses gynllunio, o fewn yr amser sydd ar gael iddynt. Maent yn cyfarfod yn ffurfiol i drafod arsylwadau ac asesiadau a chynllunio ar gyfer y pythefnos nesaf. Erbyn hyn, mae pob un o’r ymarferwyr yn cymryd rhan fwy pwrpasol yn y broses gynllunio ac yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau defnyddiol. Er nad yw’r datblygiad diweddaraf hwn wedi cael amser i fod yn gwbl sefydledig, mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi’r cyfle y mae’n ei ddarparu i alluogi iddynt gymryd rhan yn llawn yng ngwaith y lleoliad.

**Argymhelliad 4: Cryfhau'r broses asesu drwy gynnwys yr holl staff a defnyddio'r wybodaeth a gesglir i ddatblygu dysgu'r plant**

Cynnydd cryf o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r lleoliad yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen yn briodol i sefydlu man cychwyn ar gyfer y plant. Mae hyn yn eu galluogi i fesur cynnydd yn effeithiol dros gyfnod. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn asesu a chofnodi cynnydd plant, yn enwedig yn ystod tasgau â ffocws. O ganlyniad, maent yn dod i adnabod y plant yn dda. Mae ymarferwyr yn defnyddio system goleuadau traffig yn gyson i gofnodi a oes angen mwy o ymarfer ar blant mewn meysydd dysgu penodol er mwyn gallu eu symud ymlaen yn llwyddiannus. Maent yn dod yn gynyddol fedrus yn defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio i ddatblygu dysgu’r plant yn systematig.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl strategol yr arweinydd a sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn ymwybodol o'i hanghenion**

Cynnydd da iawn o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae’r arweinydd wedi canolbwyntio’n effeithiol ar fodloni’r argymhellion. Mae hi wedi sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson yn y sesiynau ac mae wedi gofyn am gymorth â hyn gan asiantaethau eraill yn briodol. Mae pob ymarferwr yn deall polisi iaith Mudiad Meithrin. Maent wedi gwneud cynnydd da tuag at ei roi ar waith yn llawn yn y sesiynau ac maent yn dod yn gynyddol hyderus a chymwys.

Mae’r arweinydd wedi gweithio’n galed i sicrhau bod ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau yn ystod y sesiwn. Mae hi wedi cymryd camau pendant tuag at sicrhau bod pob ymarferwr yn cymryd rhan lawn ym mywyd y lleoliad, ac yn dirprwyo cyfrifoldebau’n briodol. Mae’r arweinydd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o’r fformat cynllunio newydd, gan sicrhau ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant.

Mae’r arweinydd wedi cynnwys y pwyllgor yng ngwaith y lleoliad ym mhob cam trwy gyfathrebu â nhw yn rheolaidd. Mae’n gwneud yn siŵr bod y cynllun gweithredu ar agenda’r pwyllgor yn gyson ac yn darparu adroddiadau addysgiadol. Er y cafwyd newidiadau i’r pwyllgor yn ddiweddar, mae’n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cefnogi’r lleoliad yn dda, er enghraifft trwy gynnal gwerthusiad blynyddol yr arweinydd a threfnu gweithgareddau codi arian. Yn ddiweddar, mae aelodau o’r pwyllgor wedi ymgymryd â chyfrifoldebau penodol ar gyfer gwahanol argymhellion o’r adroddiad er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn fwy cynhwysol ac yn nodi agweddau i'w gwella yn fwy trylwyr**

Cynnydd cryf o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r arweinydd wedi gwella prosesau hunanarfarnu’r lleoliad. Mae’r datganiadau yn yr adroddiad yn fwy arfarnol ac mae’r ddogfen yn nodi llawer o feysydd defnyddiol i’w datblygu, yn enwedig mewn perthynas â’r ddarpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae’r holl ymarferwyr yn dechrau cymryd rhan ystyrlon mewn gwella’r ddarpariaeth, sydd wedi arwain at welliannau yn lles y plant ac yn agwedd y lleoliad at ailgylchu. Mae’r lleoliad yn ymgynghori â rhieni’n briodol gan ddefnyddio holiadur blynyddol Mudiad Meithrin.

Ceir cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun gweithredu ôl-arolygiad y lleoliad. Mae’r cynllun gweithredu yn ddogfen gynhwysfawr ac yn cynnwys targedau clir a graddfeydd amser defnyddiol. Mae’n nodi costau penodol fel cost hyfforddiant staff a datblygu’r awyr agored. Mae’r arweinydd yn gweithio’n bwrpasol ochr yn ochr ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i adolygu ac arfarnu cynnydd. O ganlyniad, mae’r lleoliad wedi llwyddo i ysgogi llawer o welliannau ers yr arolygiad diwethaf.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod yr holl staff yn mynychu hyfforddiant, ac yn cael cyfleoedd i arsylwi arfer dda er mwyn gwella eu dealltwriaeth o ddarpariaeth, addysgu ac arweinyddiaeth**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae ymarferwyr wedi elwa ar ymweliadau â lleoliadau eraill ac â dosbarth meithrin a derbyn yr ysgol. Mae'r gweithgareddau datblygiadol defnyddiol hyn wedi helpu ymarferwyr i weld eu gwaith mewn cyd-destun ehangach, sy'n cyfrannu'n effeithiol at welliannau, yn enwedig mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth. Er enghraifft, yn dilyn yr ymweliadau â lleoliadau eraill, mae ymarferwyr wedi ymestyn cyfrifoldebau 'helpwr heddiw' ac wedi dod yn fwy hyderus yn eu dull o gynllunio.

Mae ymarferwyr wedi gwneud y gorau o gyfleoedd i fynychu hyfforddiant a ddarperir gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i wella eu harfer broffesiynol. Mae'r rhain wedi cynnwys cyrsiau sydd wedi gwella eu dealltwriaeth o gynllunio ac asesu a sut i ddatblygu medrau rhifedd plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn dechrau myfyrio'n feirniadol ar eu harfer eu hunain gyda dealltwriaeth gynyddol o sut i wella eu haddysgu.

**Argymhelliad 8: Mynd i'r afael â'r materion iechyd a amlygwyd yn ystod yr arolygiad**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â'r argymhelliad ac wedi ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid priodol. Mae wedi cymryd camau priodol i ddelio â'r materion a amlygwyd yn ystod yr arolygiad. Mae arweinydd y lleoliad wedi cynnal asesiad risg anffurfiol addas o'i ddull newydd. Fodd bynnag, nid yw hi wedi cofnodi hyn yn ffurfiol eto.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi ei wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.